

ANTHONY, HENRY MARK (1817 - 1886), arlunydd

Enw: Henry Mark Anthony
Dyddiad geni: 1817
Dyddiad marw: 1886
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: arlunydd
Maes gweithgaredd: Celf a Phensaernïaeth; Natur ac Amaethyddiaeth
Awdur: Mary Gwyneth Lewis

Ganwyd ym Manceinion, o dras Cymreig. Symudodd ei deulu i'r Bontfaen, Sir Forgannwg, ac yno yn 16 oed aeth yn brentis at feddyg. Daeth yn berchen ar foddion annibynnol a rhoddodd y gorau i alwedigaeth meddyg, gan dreulio tua deng mlynedd ar y Cyfandir yn astudio celf; yn ystod y blynyddoedd hyn daeth dan ddylanwad Corot a Jules Dupré. Bu 129 o'i ddarluniau mewn arddangosfeydd rhwng 1837 a 1884 - yn eu plith 'A view on the Rhaidha [sic] Glamorganshire' yn y Royal Academy yn 1837. Ceir peth o'i waith yn Amgueddfa Genedlaethol Cymru -e.e. golygfa o abaty Tintern. Yn 1858 aeth i fyw i Hampstead, lle y bu farw 2 Rhagfyr 1886.

Awdur

Mary Gwyneth Lewis, (1912 - 1999)

Ffynonellau

T. M. Rees, *Welsh painters, engravers and sculptors, 1527–1911* (1912)

T. M. Rees, *Notable Welshmen (1700–1900)* (1908)

Michael Bryan, *Bryan's dictionary of painters and engravers*, 1930, 43

Benezit, *Dictionnaire critique et documentaire des peintres, sculpteurs, dessinateurs & graveurs des tous les temps et de tous les pays*, 1948, i, 194

National Museum of Wales, *Catalogue of the pictures and sculpture exhibited in the Cardiff collections Trinity Street* (Caerdydd 1914)

Dolenni Ychwanegol

VIAF: 34728081

Wikidata: Q3132939

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

PDF Argraffu Cyfeirnod

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchfrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Trannu

Arddull APA

x

Lewis, M. G., (1953). ANTHONY, HENRY MARK (1817 - 1886), arlunydd. Y *Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 8 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c-ANTH-MAR-1817>

Cyfrwngwladur

Preifatrwydd a Chwcis
Hawlfraint
Y Prosiect
Cymorth
Cysylltu

LGC
NLW

LLYFRGEL
THE NATION



Ysgrifeddiadau
Llywodraeth Cymru
Copied by
Welsh Government